

Atebion

Hir!

Tasg 1

1.

		Y drefn gywir
1.	pecynnu'r siocled	12
2.	casglu'r ffrwythau pan fyddan nhw'n aeddfed	1
3.	cracio'r ffa coco i gael gwared â'r plisgyn	6
4.	tynnu'r siocled o'r mowldiau a'i oeri	11
5.	eplesu'r ffa coco a'u sychu	3
6.	agor y ffrwythau a thynnu'r ffa coco allan	2
7.	glanhau'r ffa coco a'u rhostio	5
8.	creu pâst o'r darnau mân drwy eu malu ac ychwanegu siwgr	8
9.	gwneud y pâst yn llyfn	9
10.	malu'r ffa coco yn ddarnau mân	7
11.	cludo'r ffa coco i ffatri	4
12.	rhoi'r siocled mewn mowldiau	10

Tasg 2

1.

Prynu anrheg pen-blwydd

Aeth Alex i'r dref brynhawn dydd Sadwrn i brynu anrheg pen-blwydd i'w ffrind.

Daliodd hi'r bws dau o'r gloch a chyrhaeddodd hi am hanner awr wedi dau. Cerddodd hi tuag at y dref ac **yna / wedyn**, aeth hi tuag at y siop siocledi.

Cyn mynd i mewn i'r siop siocledi, edrychodd Alys yn y ffenest. Roedd llawer o ddewis yno ac felly cerddodd i mewn.

Pan oedd hi yn y siop, penderfynodd hi brynu bar mawr o siocled i'w ffrind oherwydd roedd e'n rhatach na'r bocsys ac roedd hi'n gwybod bod ei ffrind yn hoffi'r bar yma'n fawr.

Gadawodd hi'r siop a'r dref ac aeth adre ar y bws.

Ar ôl mynd adre, lapiodd hi'r bar. **Yna, / Wedyn**, ffoniodd hi ei ffrind ac aeth â'r bar i dŷ ei ffrind.

Roedd Lisa, ei ffrind, wrth ei bodd **pan** welodd hi'r anrheg yn llaw Alex. "Tyrd i mewn i'w rannu gyda mi", dywedodd **ar ôl** gweld beth oedd yr anrheg.

A dyna lle bu Alex a Lois drwy'r nos, yn edrych ar ffilm ac yn mwynhau'r siocled.